# RADISH

## 1 HAU DY HADAU

Rhwng mis Chwefror a mis Medi, gelli di hau hadau radish yn syth i'r gwely llysiau. Gwna'r rhigolau'n 1cm o ddyfnder, gyda 10cm rhwng pob rhes. Dyfria'r rhigol a thaenu'r hadau'n ysgafn. Rho ychydig o bridd dros y rhigolau.

Neu gelli di hau'r hadau rhwng planhigion sy'n cymryd mwy o amser i dyfu.


## 2 TENEUO

Mae'n syniad teneuo'r planhigion gwannach ar ôl i'r planhigion bach ddechrau tyfu. Mae hyn yn rhoi mwy o le iddyn nhw ddatblygu. Gadawa tua 10cm rhwng pob radish.

## 3 CYNAEAFU

Mae radis yn cymryd 6 – 8 wythnos i dyfu, o'i hau i'w hel. Byddi di'n dechrau gweld topiau pinc y radishys ar wyneb y pridd. Pan fydd y top pinc tua maint darn 10 ceiniog ar draws, mae'n bryd ei godi.

Gofala beidio gadael dy radishys yn y ddaear yn rhy hir, oherwydd byddan nhw'n colli eu blas a byddan nhw'n mynd yn galed y tu mewn.




## COFIA

Dydy radish ddim yn cymryd llawer o amser i aeddfedu a'u hel, felly gelli di hau ail a hyd yn oed drydydd cnwd yn ystod y tymor tyfu. Ar ôl i ti gynaeafu cnwd, cer yn ôl i gam 1 a hau mwy o hadau.



Newydd egino



Planhigion ifanc



Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES